Service to the community | People | Striving for excellence | Diversity and inclusivity

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# TECHNEGYDD LOGISTEG AC OFFER

**Adran Fflyd, Cyffordd Llandudno**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**(Oriau penodol Llun-Iau 8am-4pm Gwener 8am-3.30pm)**
**NWFRS Gradd 04 £27,694 i £28,598 y flwyddyn**

Rydym yn edrych i benodi Technegydd Logisteg ac Offer i ymuno â'n Adran Fflyd. Mae'r rôl yn gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw offer Gwasanaeth, ynghyd â chasglu a chyflenwi cerbydau ac offer ar gyfer Gwasanaeth ac atgyweirio, a chynnal profion brêc rholer.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynorthwyo staff y gweithdy fel y cyfarwyddir gan y Goruchwylwyr Fflyd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cynorthwyo technegwyr i ogwyddo cabiau cerbydau, ysgolion siop ar gerbydau a defnyddio lori fforch godi ac ati'.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfathrebwr da, gyda sgiliau trefnu methodaidd ar gyfer cynllunio llwythi gwaith er mwyn bodloni dyddiadau cau a gofynion rheoli amser.

Gan weithio fel rhan o dîm o dechnegwyr aml-sgil, byddwch yn gweithio dan do o fewn amgylchedd gweithdy ac yn yr awyr agored ar ymweliadau â gorsafoedd. Efallai y bydd angen i ddeiliad y swydd godi eitemau trwm ac yn destun baw neu lwch wrth lanhau offer ac ysgolion Cynnal gweithfan ddiogel a glân.

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos (gyda thystiolaeth) y sgiliau, fel yr amlinellir yn y disgrifiad swydd a manyleb person gan gynnwys y gofynion hanfodol canlynol:

- Trwydded yrru categori C
- Trwydded Categori C1 +E
- Cwrs cynnal a chadw ysgolion/gloyfwyr neu'r gallu i basio'r cwrs cynnal a chadw ysgolion, cynnal a chadw cangen a hyfforddiant profwr brêc.
- Profiad cynnal a chadw mecanyddol sylfaenol.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm.
- Sgiliau trefnu da er mwyn blaenoriaethu llwyth gwaith a chwrdd â dyddiadau cau.
- Lefel rhesymol o ffitrwydd.
- Gallu cynnal sgwrs syml ar Lefel 2 Cymraeg – os nad yw'n cael ei ddangos eisoes ar gais, mae hyn i'w gyflawni o fewn cyfnod prawf o 12 mis, gyda chymorth wedi'i ddarparu fel y bo'n briodol.
- Penodiad yn amodol ar Wiriad DBS Safonol a geirdaon boddhaol.

Mae rhagor o wybodaeth am y rôl, gan gynnwys disgrifiad swydd a phecyn cais, ar gael ar wefan Tân ac Achub Gogledd Cymru neu drwy e-bostio: recruitment@northwalesfire.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00 hanner dydd, Dydd Gwener 6ed Mawrth 2026**

*Bydd y dyddiad cau yn cael ei gadw'n llym ac ni fydd unrhyw eithriadau yn berthnasol.*

disability confident EMPLOYER

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
call • text • live chat
Home shouldn't be a place of
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ymateb yn eich iaith o'ch dewis yn ddi-oed. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.